**Dyddiad cau dydd Iau 15/10/2020**

CYNGOR SIR *POWYS* COUNTY COUNCIL

# SWYDD-DDISGRIFIAD

**Byddai'r gallu i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymhwyster hanfodol ar gyfer y swydd hon**

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd:** | **CYNORTHWYYDD ADDYSGU (Generig) Lefel 2** |
| **Rhif y Swydd:** | **TBC** |
| | **30 awr yr wythnos /Cyfnod Penodol hyd at 31/08/2021** |
| **Is-adran/Uned:** | **Ysgolion** |
| **Lleoliad/Canolfan Waith:** | **Ysgol Bro Hyddgen Campws Uwchradd a Cynradd** |
| **Graddfa:** | **Graddfa 4**<br>**Pwynt 5 i Bwynt 6**<br>**£18795 i £19171 y flwyddyn ar gyfartaledd**<br>**£9.7419 i £9.9368 yr awr** |
| **Yn atebol i:** | **Pennaeth a'r Corff Llywodraethu** |
| **Yn gyfrifol am:** | **Dim** |

## DISGRIFIAD BRAS:

Gan weithio dan oruchwyliaeth gyffredinol yr athro cyfrifol, cynorthwyo a chefnogi'r addysgu a'r dysgu, gan weithio gydag unigolion neu grwpiau a chynorthwyo i ddarparu ar gyfer gofal, diogelwch a lles cyffredinol y disgyblion.

**Cyfrifoldeb am eraill:** Mae'r swydd yn effeithio ar les unigolion neu grwpiau drwy helpu gydag asesu angen a chynnydd disgyblion, datblygu a gweithredu cynlluniau a rhoi cymorth i ddisgyblion ag anghenion arbennig/personol ychwanegol.

**Cyfrifoldeb am staff:** Prin yw cyfrifoldeb uniongyrchol y swydd am oruchwylio staff eraill er gall fod disgwyl i ddeiliad y swydd arddangos tasgau neu gynghori/arwain cyflogeion newydd, pobl ar brofiad gwaith neu bobl dan hyfforddiant.

**Cyfrifoldeb am adnoddau ariannol:** Nid oes gan y swydd gyfrifoldeb uniongyrchol o gwbl am adnoddau ariannol heblaw ymdrin weithiau â symiau bach o arian, prosesu sieciau, anfonebau etc.

**Cyfrifoldeb am adnoddau ffisegol:** Mae gan y swydd rywfaint o gyfrifoldeb am adnoddau ffisegol, drwy baratoi deunyddiau/adnoddau addysgu a gofalu amdanynt a chadw cofnodion diogel a chywir.

## TASGAU, DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU NODWEDDIADOL

Mae'r canlynol yn ychwanegol at ddyletswyddau a chyfrifoldebau nodweddiadol Cynorthwyydd Addysgu 1 Cynradd/Uwchradd.

**Cefnogi'r cwricwlwm:**

- Cyfrannu at gynllunio a gwerthuso'r cwricwlwm a chynorthwyo i'w weithredu
- Cynorthwyo i gyflenwi gwersi/sesiynau a rhyngweithio â'r athro a'r disgyblion yn ôl y gofyn
- Ymgymryd â gweithgareddau dysgu/rhaglenni addysgu y cytunwyd arnynt, gan addasu gweithgareddau yn unol ag ymatebion y disgyblion.
- Cefnogi a defnyddio TGCh mewn gweithgareddau dysgu a datblygu gallu ac annibyniaeth y disgyblion i'w defnyddio.

**Cefnogi'r disgyblion:**

- Cefnogi unigolion neu grwpiau yn ystod gwaith grŵp / annibynnol, e.e. egluro tasgau, atgyfnerthu amcanion/cysyniadau neu eirfa allweddol, defnyddio cyfarpar ymarferol, cefnogi disgyblion llai galluog, ymestyn/herio disgyblion mwy galluog, cadw'r disgyblion yn canolbwyntio ar dasg, a chynnal eu diddordeb, eu cymhelliant a'u hymgysylltiad.
- Cymorth achlysurol i'r dosbarth cyfan am gyfnodau byr (e.e. darllen stori).
- Helpu disgyblion i ddatblygu sgiliau cyfathrebu a gwaith chwarae rôl.
- Hyrwyddo cynnwys a derbyn pob disgybl, eu hannog i ryngweithio a chydweithio a chymryd rhan mewn gweithgareddau.
- Hyrwyddo annibyniaeth a datblygu hunan-barch.
- Cynorthwyo gyda datblygiad personol, cymdeithasol, emosiynol y disgyblion a datblygu eu hunan-barch.
- Cynorthwyo i ddatblygu a gweithredu Cynlluniau Addysg Unigol/Cymorth Bugeiliol.
- Defnyddio sgiliau / gwybodaeth/ hyfforddiant arbenigol i roi cymorth mewn meysydd arbenigol.
- Annog ac atgyfnerthu rhyngweithio cadarnhaol rhwng y disgyblion gan weithio yn unol ag unrhyw dargedau ymddygiad a osodwyd.
- Arsylwi, adnabod a rhoi gwybod am batrymau ymddwyn annodweddiadol.
- Cynorthwyo i oruchwylio disgyblion ar deithiau i ffwrdd o'r safle, dan gyfarwyddyd cyffredinol yr athro
- Monitro gofal, diogelwch a lles cyffredinol y disgyblion a darparu ar gyfer y rhain, gan gynnwys tasgau sy'n gysylltiedig â'u cynhwysiant cymdeithasol a'u gofal personol/corfforol.

**Cefnogi'r athro:**

- Gweithio i safonau cyfrinachedd yr ysgol
- Cynorthwyo gwaith i gynllunio, cyflenwi a gwerthuso gwersi/gweithgareddau
- Monitro unigolion/grwpiau yn cyflawni amcanion allweddol a rhoi adborth i'r athro
- Cyfrannu at asesu disgyblion drwy arsylwi ac adrodd
- Cofnodi gwybodaeth sy'n berthnasol i asesu ac adolygu cynnydd disgyblion

- Mynychu cyfarfodydd Cynllun Addysg Unigol a chyfarfodydd adolygu datganiad os yw'n briodol
- Cefnogi gweithredu strategaethau i reoli ymddygiad disgyblion a helpu i reoli ymddygiad disgyblion
- Mynd ati i gyfrannu at reoli'r amgylchedd dysgu o ddydd i ddydd, gan gynnwys cyfrifoldeb am baratoi cymhorthion, offer, deunyddiau ac adnoddau addysgu gwahaniaethol a gofalu amdanynt.
- Gwneud tasgau gweinyddol rheolaidd ac afreolaidd, e.e. llunio taflenni gwaith, gweinyddu gwaith cwrs ac asesiadau, goruchwylio arholiadau
- Cysylltu â rhieni/gofalwyr, athrawon arbenigol a staff proffesiynol eraill, rhannu a darparu gwybodaeth

**CYMWYSTERAU, HYFFORDDIANT A GALLUOEDD TEBYGOL**

O leiaf TGAU (neu gymhwyster cyfwerth) mewn Saesneg, Cymraeg, os yw'n ofynnol, a Mathemateg (A*-C)

Meddu ar gymhwyster NVQ 2 perthnasol a chymeradwy ac wedi gwneud hyfforddiant priodol arall yn y strategaethau dysgu perthnasol (sy'n arwain yn ddelfrydol at safonau cenedlaethol NVQ 3) neu'n gallu arddangos gwybodaeth, profiad a sgiliau cyfwerth.

Sgiliau cyfathrebu a gwrando da a gallu cyflwyno gwybodaeth ar lafar ac yn ysgrifenedig i eraill.

Profiad o waith Cynorthwyydd Addysg.

Wedi mynychu hyfforddiant pellach ar agweddau ar y cwricwlwm neu feysydd angen arbennig penodol.

Lefel dda o wybodaeth a dealltwriaeth am o leiaf un maes dysgu (e.e. Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth).

Deall polisïau'r ysgol a sut maent yn gysylltiedig â fframweithiau/polisïau lleol a chenedlaethol (e.e. amddiffyn plant, iechyd a diogelwch, cyfle cyfartal, Cod Ymarfer AAA, Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd)

Gallu defnyddio TGCh yn effeithiol i gefnogi dysgu a defnyddio offer technoleg arall.

Gallu cynllunio ei waith ei hun pan fydd gofyn.

Gallu trosglwyddo theori/hyfforddiant a'i roi ar waith.

Gallu datrys problemau a gweithio ar ei liwt ei hun ac yn annibynnol.

Yn rhagweithiol wrth gynnig syniadau.